Canllawiau Diogelu: Ymddygiad Niweidiol y Tu Allan i'r Gweithle ac Atgyfeiriadau DBS

Nid yw diogelu wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n digwydd yn y gweithle. Gall ymddygiad niweidiol sy'n digwydd mewn lleoliadau personol, domestig neu gymdeithasol gael goblygiadau difrifol - yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio mewn gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant neu oedolion. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ystyried a yw ymddygiad o'r fath yn dangos tueddiad **i niweidio**, ac a allai'r niwed hwnnw **drosglwyddo i rolau cyflogedig neu wirfoddol**.

Deall Ymddygiad Niweidiol

Mae ymddygiad niweidiol yn cyfeirio at weithredoedd, neu hepgoriadau sy'n arwain at effaith negyddol ar eraill. Gall hyn gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i drais corfforol, cam-drin geiriol ac emosiynol, esgeulustod, trin neu ecsbloetio.

Y prif bryder diogelu yw nid yn unig yr ymddygiad ei hun, ond ei **effaith ar eraill** a'r **risg o ailadrodd** wrth gynnal gweithgaredd a reoleiddir. Gall niwed trosglwyddadwy ymddangos yn wahanol ar draws gwahanol sectorau a dylai sefydliadau ystyried sut y gallai ymddygiad niweidiol mewn cyd-destun y tu allan i'r gwaith o bosibl drosglwyddo i'r gweithle, ac effeithio ar grwpiau agored i niwed.

Enghreifftiau o ymddygiad niweidiol a Natur Drosglwyddadwy

- **Cam-drin Domestig**: Gall unigolion sy'n defnyddio trais neu orfodaeth i ennill rheolaeth mewn perthnasoedd personol beri risg o ddefnyddio tactegau tebyg mewn lleoliadau proffesiynol. Gallai tymer byr neu gred bod trais yn ennill parch gael ei waethygu gan y pwysau o gynnal gweithgaredd a reoleiddir yn y gweithle.
- **Esgeuluso plant**: Efallai nad oes gan berson sy'n cael trafferth diwallu anghenion gofal sylfaenol eu plant eu hunain y gallu i ddarparu gofal diogel a chyfrifol i eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn rolau sy'n ymwneud â gofal neu oruchwyliaeth.
- **Ecsbloetio Ariannol**: Gall y rhai sy'n trin neu ddwyn oddi wrth eraill er budd personol weld pobl mewn lleoliadau lle maent yn derbyn gweithgaredd a reoleiddir fel targedau hawdd. Byddai'r ymddygiad hwn yn peri risg diogelu uniongyrchol.

Wrth ystyried ymddygiad niweidiol a ddigwyddodd y tu allan i'r gweithle, os yw hyn wedyn yn arwain at unigolyn yn cael ei dynnu o'i rôl mewn gweithgaredd a reoleiddir, yna byddai'r ddyletswydd i gyfeirio yn bodoli a dylid cyfeirio'r unigolyn at DBS.

Camymddwyn Difrifol ac atgyfeiriadau at DBS

Os yw unigolyn wedi cael ei dynnu o'i rôl weithgaredd a reoleiddir oherwydd bod y cyflogwr wedi dod yn ymwybodol o wybodaeth yr heddlu, dylid ystyried y ddyletswydd i gyfeirio. Gallai hyn fod yn achosion lle mae'r unigolyn wedi derbyn rhybudd neu euogfarn y tu allan i'w fan gwaith ond nad oedd wedi datgelu'r wybodaeth hon i'w gyflogwr.

Os yw'r cyflogwr yn penderfynu bod y diswyddiad oherwydd camymddwyn difrifol neu esgeulustod difrifol am beidio â rhannu gwybodaeth bwysig, rhaid iddyn nhw ofyn: *Pe bai'r gweithiwr wedi dweud wrthym am hyn, a fyddem yn dal i ystyried eu bod yn addas i weithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda grwpiau agored i niwed?*
Os *na* yw'r ateb, yna mae'r ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio at y DBS yn berthnasol a rhaid gwneud atgyfeiriad.

Pryd i ystyried atgyfeiriad

Os ydych chi'n ymwybodol o ymddygiad niweidiol sydd wedi digwydd y tu allan i'r gweithle ac yn credu y gallai effeithio ar allu rhywun i gymryd rhan yn ddiogel mewn gweithgareddau a reoleiddir, **dylech ystyried dweud wrth DBS amdano**. Bydd DBS yn asesu a yw'r ymddygiad yn debygol o drosglwyddo i leoliadau proffesiynol ac yn peri risg i blant neu oedolion.

Dyletswydd i Gyfeirio

Mae gan Ddarparwyr Gweithgareddau a Chyflenwyr Personél ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio unigolyn at DBS pan fodlonir amodau penodol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol hyd yn oed os yw adroddiad eisoes wedi'i wneud i gorff arall, fel tîm diogelu awdurdod lleol. I gael rhagor o wybodaeth am pryd mae'r ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio yn bodoli, gweler: Gwneud atgyfeiriadau gwahardd i DBS - GOV.UK

Mae yna achlysuron lle efallai na fydd person wedi cymryd rhan mewn ymddygiad perthnasol, ond mae pryderon difrifol o hyd sy'n bodloni'r prawf niwed. Er mwyn bodloni'r prawf niwed, mae angen tystiolaeth gredadwy o risg o niwed i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant.

Os nad yw'ch sefyllfa yn bodloni'r ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio, gallwch barhau i wneud atgyfeiriad ar sail diogelu. Gofynnwch am eich cyngor cyfreithiol eich hun wrth wneud hyn.

Casgliad

Mae diogelu yn ymwneud ag **atal niwed cyn iddo ddigwydd**. Mae cydnabod ymddygiad niweidiol y tu allan i'r gweithle a deall ei botensial i drosglwyddo i weithgaredd a reoleiddir yn hanfodol. Trwy weithredu'n briodol a gwneud atgyfeiriadau pan fo angen, gall gweithwyr proffesiynol helpu i amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Am fwy o wybodaeth a chefnogaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â'ch Cynghorydd Allgymorth Rhanbarthol DBS neu anfonwch e-bost atom yn dbsregionaloutreach@dbs.gov.uk